# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 16 a 23 Hydref 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

12 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

15 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

18 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

27 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Ymweliad ag Awstralia

**William Graham:** A wnaiff y Prif Weinidog roi manylion ei ymweliad ag Awstralia yn ystod toriad Hydref 2003? (WAQ28977)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Nid yw'r rhaglen ar ei gwedd derfynol eto, ond gallaf gadarnhau bod cynlluniau imi gynnal nifer o gyfarfodydd gyda ffigyrau allweddol yn y Llywodraeth yn Sydney ac yn Canberra, gan gynnwys Bob Carr, prif weinidog De Cymru Newydd. Byddaf yn ymgymryd â rhaglen helaeth o gyfarfodydd gyda'r rhai sy'n mewnfuddsoddi ar hyn o bryd a chyda darpar fewnfuddsoddwyr, rhaglen a gaiff ei threfnu gan Awdurdod Datblygu Cymru, yn ogystal â lansio ffenestr siop Cymru i'r byd yn Sydney. Yr wyf hefyd yn arwain y daith fasnach fwyaf y mae MasnachCymru Rhyngwladol wedi ei threfnu yn Awstralia, a byddaf yn cynnal derbyniad i fusnesau'r daith fasnach a phartneriaid masnachu posibl. Byddaf yn siarad mewn digwyddiad busnes o bwys sy'n cael ei drefnu gan Siambr Fusnes Brydeinig Awstralia a phwyllgor Melbourne. Bwriadwn ailddatgan ein memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda De Cymru Newydd ac wedi hynny byddaf yn mynd i gêm rygbi Cymru yn erbyn Seland Newydd fel gwestai i Lywodraeth De Cymru Newydd. Mae copi llawn o'r rhaglen wedi ei gyhoeddi fel gwybodaeth ychwanegol at y cwestiwn hwn.

### Ymweliadau Tramor

**Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog ddarparu rhestr o bob taith dramor gan bob Gweinidog yn y Cabinet ar fusnes Llywodraeth y Cynulliad rhwng 1 Ionawr 2002 a 30 Medi 2003? (WAQ29062)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r rheswm dros bob un o ymweliadau tramor Gweinidogion y Cabinet rhwng 1 Ionawr 2002 a 30 Medi 2003, a'r gost? (WAQ29081)

**Y Prif Weinidog:** Dangosir rhestr o ymweliadau tramor Gweinidogion y Cabinet ar fusnes y Llywodraeth yn y cyfnod rhwng Ionawr 2002 a Medi 2003 isod. Dangosir cost pob ymweliad a'r rheswm amdano. Nid yw'r rhestr yn cynnwys ymweliadau â Brwsel ar fusnes y Cynulliad.

**Ymweliadau tramor gan Weinidogion, Ionawr 2002 hyd at Fedi 2003**

| Gweinidog | Ymwelwyd â | Dyddiad | Cyfanswm y Gost | Rheswm |
|---|---|---|---|---|
| **Rhodri Morgan** | Efrog Newydd | 1/3/02 – 5/3/02 | Ddim ar gael | Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi a hyrwyddo twristiaeth |
| | De Affrica | 30/8/02 – 6/9/02 | £2,081.20 | Uwchgynhadledd y byd ar ddatblygu cynaliadwy a thaith fasnach |
| | Awstralia | 7/9/02 – 13/9/02 | £5,039.05 | Taith fasnach a hyrwyddo mewnfuddsoddi |
| | Saudi Arabia | 7/10/02-13/10/02 | £2,378.10 | Taith fasnach a thrafodaethau rhwng y ddwy Lywodraeth |
| | Yr Eidal | 13/11/02 | £1,319.70 | Cynhadledd arlywyddol am bwerau deddfwriaethol |
| | Poitiers | 2/12/02 | £968.10 | Adran wleidyddol Cynhadledd y Rhanbarthau Arforol Ymylol |
| | Rhufain/ Brwsel | 14/2/03 | £984.65 | Yr Eidal: Cymru Dramor/ cyfarfod â Gweinidogion yr Eidal.<br>Brwsel: dyfodol polisi cydlyniad |
| | Gwlad Groeg | 15/5/03-16/5/03 | £1,067 | Cyfarfod i Weinidogion am bolisi rhanbarthol |

| Gweinidog | Ymwelwyd â | Dyddiad | Cyfanswm y Gost | Rheswm |
|---|---|---|---|---|
| | Barcelona | 19/6/03 – 20/6/03 | £604.30 | Siarad yng nghynhadledd y Cyngor Prydeinig a hyrwyddo mewnfuddsoddi |
| | Estonia/ Latvia/Milan | 1/9/03 – 7/9/03 | £9,259 | Cymryd rhan yn wythnos ‘Cymru yn Estonia’, a thaith fasnach a hyrwyddo mewnfuddsoddi |
| | St Malo | 11/9/03 – 12/9/03 | £2,628 | Mynychu Cynhadledd Rhanbarthau Arforol Ymylol Ewrop |
| **Carwyn Jones** | Strasbourg | 1/7/02 – 2/7/02 | £150.34 | Ymchwiliad clwy’r traed a’r genau |
| | UDA (Philadelphia) | 28/8/02 | £4,858.10 | Cymanfa ganu (Harrisburg) yn cefnogi MasnachCymru Rhyngwladol |
| | Efrog Newydd | 28/6/03 – 1/7/03 | £6,747 | Digwyddiad hyrwyddo bwyd Cymdeithas Genedlaethol y Diwydiant Bwydydd Arbenigol |
| | Perth, Gorllewin Awstralia | 14/9/03 – 20/9/03 | £16,080 | Cynhadledd rhwydwaith rhyngwladol y llywodraethau rhanbarthol dros ddatblygu cynaliadwy |
| **Jane Davidson** | Yr Eidal* | 5/6/02 | £772.00 | Cwrdd â’r Gweinidog cyfatebol |
| | Gwlad y Basg | 24/9/02 | £1,044.70 | Dwyieithrwydd a’r blynyddoedd cynnar |
| | Yr Iseldiroedd | 25/9/02 – 27/9/02 | £1,019.70 | Mynychu cynhadledd Ewropeaidd |
| | Denmarc | 4/10/02 | £475.20 | Cynhadledd Ewropeaidd yr Awdurdodau Rhanbarthol a Lleol dros Ddysgu Gydol Oes |
| | Yr Eidal | 13/12/02 - 14/12/02 | £911.70 | Cynhadledd EARLALL |
| | De Cymru Newydd | 22/8/03 – 29/8/03 | £1,0669 | Meithrin cysylltiadau addysg a meincnodi Cymru fel gwlad sy’n dysgu |
| **Jenny Randerson** | Paris | 15/3/02 – 16/3/02 | Ddim ar gael | Gwyl Interceltique Lorient |
| | Gwlad y Basg | 9/4/02 – 12/4/02 | £273.34 | Ieithoedd lleiafrifol yn Sbaen |
| | Jersey | 13/6/02 – 14/6/02 | £485.00 | Cyngor Prydain-Iwerddon |
| | Llydaw | 3/8/02 – 6/8/02 | £315.00 | Gwyl gelfyddydau Lorient |
| | Yr Eidal | 17/10/02 | £744.50 | Cynhadledd y Gweinidogion diwylliant rhanbarthol |
| | Strasbourg* | 16/2/03 | £304.40 | Siarad yng nghynhadledd y Gweinidogion diwylliant |
| **Michael German** | Efrog Newydd | 6/7/02 – 9/7/02 | £3,518.00 | Ffair bwyd ffansi (WDA) ac ymweld â safle swyddfa’r Cynulliad yn Efrog Newydd |
| | Gwlad Groeg | 19/9/02 – 20/9/02 | £1,240.88 | Cynhadledd Rhanbarthau Arforol Ymylol Ewrop |
| | Sbaen | 27/9/02 – 29/9/02 | £575.10 | Cynhadledd (4 rhanbarth sbardun) |

| Gweinidog | Ymwelwyd â | Dyddiad | Cyfanswm y Gost | Rheswm |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Taith ymchwil Ffermwyr Cymru i'r Dyfodol |
| | Paris* | 21/10/02 - 22/10/02 | £536.10 | *Salon International de l'Alimentation* (digwyddiad i'r diwydiant bwyd) |
| **Sue Essex** | Helsinki | 26/3/02 – 28/3/02 | Ddim ar gael | Ymweliadau a chyfarfodydd datblygu cynaliadwy gydag adran amgylchedd y Ffindir ac adran gynllunio Helsinki |
| | Paris | 7/11/02 | £294.00 | Cyngor cynllunwyr trefol Ewrop |
| **Andrew Davies** | Jersey | 13/6/02 – 14/6/02 | £485.00 | Cyngor Prydain-Iwerddon |
| | Llydaw | 3/8/02 – 6/8/02 | £429.00 | Yr ŵyl Interceltique |
| | UDA/Canada | 10/9/02 – 27/9/02 | £6,503.76 | Taith fasnach |
| | Prag | 5/12/02 – 6/12/02 | £178.27 | Taith fasnach |
| | Dulyn | 10/7/03 | £326 | Lansio llong newydd Stena Line a chwrdd â'r prif swyddog gweithredol |
| | Llydaw | 4/8/03 – 7/8/03 | £2,166 | Yr ŵyl Interceltique flynyddol |
| **Jane Hutt** | Dulyn | 22/3/02 | Ddim ar gael | Uwchgynhadledd Dulyn |
| | Helsinki | 26/3/02 – 28/3/02 | Ddim ar gael | Ymweliadau a chyfarfodydd datblygu cynaliadwy gydag adran amgylchedd y Ffindir ac adran gynllunio Helsinki |
| **Brian Gibbons** | Katania (Sicilia) | 13/11/02 | £513.27 | Cynhadledd Mudiad Iechyd y Byd (ar ran y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) |

* Yn dynodi cost yr awyren yn unig.

Nid oedd y drefn ariannol yn 2001-02 yn ei gwneud yn bosibl i wahanu costau teithio a chostau cynhaliaeth Gweinidogion dramor a dyna pam nad oes ffigurau costau ar gael am y cyfnod rhwng Ionawr a Mawrth 2002. Yr oedd y drefn ariannol yn 2002-03 yn golygu mai dim ond am gostau Gweinidogion a'u hysgrifenyddion preifat yn teithio dramor yr oedd modd casglu data'n hwylus. O 2003-04, mae'r trefniadau wedi cael eu newid fel bod modd casglu data am gostau llawn teithiau tramor, gan gynnwys costau unrhyw swyddogion sy'n teithio gyda'r Gweinidogion.

**Cynrychiolaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru**

**Michael German:** Faint o weithiau yn ystod y 12 mis diwethaf y cynrychiolwyd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y cyfarfodydd wythnosol ar ddydd Gwener â Chynrychiolaeth Barhaol y DU yn yr Undeb Ewropeaidd ac Ysgrifenyddiaeth Ewropeaidd Swyddfa'r Cabinet? (WAQ29082)

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cael ei chynrychioli'n uniongyrchol ar bedwar achlysur. Mae ei phresenoldeb yn dibynnu i raddau helaeth ar gynnwys yr agenda a pha un ai a oes staff ar gael.

### Cymorth Rhanbarthol Ewropeaidd

**Alun Cairns:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y datblygiadau diweddaraf o ran y polisi cymorth rhanbarthol Ewropeaidd ar ôl 2006? (WAQ29084)

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi dechrau ar y gwaith paratoadol o lunio canllawiau cymorth rhanbarthol ar gyfer y cyfnod ar ôl 2006. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd, ac mae'n ymrwymo i sicrhau'r setliad gorau posibl i Gymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

### Cyllid Cymru

**Alun Cairns:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu cyhoeddi'r ymchwiliad a lansiwyd i Gyllid Cymru gan brif weithredwr Awdurdod Datblygu Cymru ac a grybwyllwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar 17 Gorffennaf 2003? (WAQ27606)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 1 Awst 2003.*

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Mater gweithredol i Awdurdod Datblygu Cymru yw hwn. Fodd bynnag, mae Graham Hawker, prif weithredwr y WDA, wedi rhoi'r wybodaeth ganlynol imi mewn ymateb i'ch cwestiwn ysgrifenedig:

Ni fwriedir cyhoeddi'r ymchwiliad, gan mai mater mewnol i'r WDA ydyw.

Yr wyf wedi cael ymrwymiad ganddo y bydd yn fy hysbysu am ganlyniad yr ymchwiliad, ac ystyrir wedyn pa un ai a oes angen gwneud datganiad.

### Canolfannau TGCh i Gynorthwyo Busnesau

**Alun Cairns:** Faint o fusnesau bach sydd wedi defnyddio canolfannau TGCh Link i gynorthwyo busnesau ers mis Medi 2002? (WAQ27680)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 19 Awst 2003.*

**Andrew Davies:** Yn ei strategaeth datblygu economaidd genedlaethol, 'Cymru'n Ennill', mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymo i hybu technolegau gwybodaeth a chyfathrebu drwy ddarparu cymorth ymarferol, hygyrch i fusnesau, i'w hannog a'u galluogi i wneud defnydd effeithiol o TGCh ac e-fasnach.

Yn Lloegr, darperir cyngor TGCh drwy'r cyrff cyswllt busnes, sy'n gangen o wasanaeth yr Adran Masnach a Diwydiant i fusnesau bach. Fodd bynnag, yng Nghymru, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi comisiynu'r WDA i gyflenwi rhwydwaith o 21 o ganolfannau cymorth TGCh drwy Gymru gyfan. Mae'r rhain yn darparu cymorth TGCh rhad ac am ddim a diduedd i fusnesau bach a chanolig eu maint.

Ar sail y wybodaeth reoli a ddarparwyd gan y WDA rhwng Medi 2002 a Gorffennaf 2003, mae 5,602 o gwmnïau bach a chanolig eu maint wedi cael cyngor technegol gan y rhwydwaith hwn o 21 o ganolfannau cymorth TGCh. Yn ystod yr un cyfnod, mae'r canolfannau cymorth TGCh hyn wedi ateb 12,383 o ymholiadau technegol ac wedi cynnal digwyddiadau codi ymwybyddiaeth ar gyfer dros 5,000 o bobl.

## Canolfannau TGCh i Gynorthwyo Busnesau

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ganolfannau TGCh Link i gynorthwyo busnesau? (WAQ27681)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 19 Awst 2003.*

**Andrew Davies:** Yn ei strategaeth datblygu economaidd genedlaethol, 'Cymru'n Ennill', mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymo i hybu technolegau gwybodaeth a chyfathrebu drwy ddarparu cymorth ymarferol, hygyrch i fusnesau, i'w hannog a'u galluogi i wneud defnydd effeithiol o TGCh ac e-fasnach.

Yn Lloegr, darperir cyngor TGCh drwy'r cyrff cyswllt busnes, sy'n gangen o wasanaeth yr Adran Masnach a Diwydiant i fusnesau bach. Fodd bynnag, yng Nghymru, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi comisiynu'r WDA, ac wedi darparu £750,000 o arian y flwyddyn, i gyflenwi rhwydwaith o ganolfannau cymorth TGCh drwy Gymru gyfan. Mae'r rhain yn darparu cymorth TGCh rhad ac am ddim a diduedd i fusnesau bach a chanolig eu maint.

Mae'r rhwydwaith o ganolfannau cymorth TGCh i Gymru gyfan yn canolbwyntio ar y rhai cyntaf i fanteisio ar y dechnoleg, drwy gynnig cyngor TGCh cychwynnol wyneb yn wyneb gyda chynghorydd lleol, a thrwy gyflwyno cyfres o ddigwyddiadau a dargedir at fusnesau bach a chanolig eu maint er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r manteision busnes a all ddeillio o roi atebion TGCh effeithiol ar waith. Mae'r cynghorwyr TGCh i gyd un ai wedi ennill, neu'n gweithio tuag at ennill, achrediad 'technoleg mewn busnes' er mwyn sicrhau bod busnesau bach a chanolig eu maint yn cael cyngor priodol, diduedd. Mae rhaglen Band Eang Cymru, sy'n werth £115 miliwn, wedi caniatáu i'r WDA sefydlu darpariaeth yn y prif ganolfannau cymorth TGCh i arddangos technoleg band eang lloeren a, lle mae ar gael, technoleg band eang llinell danysgrifio ddigidol i fusnesau bach a chanolig eu maint, ynghyd â chynnig gwasanaeth 'rhoi cynnig arno cyn prynu'.

Dim ond un o'r rhaglenni cymorth TGCh sydd ar gael i fusnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru yw'r canolfannau cymorth TGCh. Mae rhaglen Cyfle Cymru, sy'n cael ei ariannu drwy Amcan 1, yn darparu cyngor e-fasnach mwy soffistigedig i fusnesau bach a chanolig eu maint. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cefnogi'r rhaglen hynod lwyddiannus hon gydag arian cyfatebol Ffordd i Ffyniant. Mae rhaglen Cyfle Cymru wedi darparu cyngor e-fasnach i bron i 4,000 o fusnesau bach a chanolig eu maint ar draws rhanbarth Amcan 1.

Darperir cyngor TGCh trylwyr, ar lefel uchel, i gwmnïau bach a chanolig eu maint mwy yn rhanbarth Amcan 1 gan y rhaglen fusnes i gwmnïau bach a chanolig eu maint a lansiwyd yn ddiweddar, sy'n cael ei ariannu drwy Amcan 1. Ymysg y rhaglenni cymorth TGCh eraill i fusnesau bach a chanolig eu maint a ariennir drwy Amcan 1 mae prosiect darparu gwasanaeth cymwysiadau Cymru. Mae hwnnw'n targedu busnesau bach a chanolig eu maint yn y sector gweithgynhyrchu a fyddai'n elwa o gymwysiadau megis cynllunio adnoddau menter ac ôl-gerbyd cymdeithas wybodaeth Cymru—ôl-gerbyd uwch-dechnoleg o eiddo'r WDA—sy'n teithio Cymru gyfan i ddangos manteision atebion TGCh.

## Cyflwr y Ffyrdd yn Nwyrain De Cymru

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyflwr y ffyrdd yn Nwyrain De Cymru, ac unrhyw gynlluniau sydd ganddo i'w gwella? (WAQ28037)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 23 Medi 2003.*

**Andrew Davies:** Mae gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud yn ôl y gofyn i gadw'r ffyrdd yn saff ac mewn cyflwr rhesymol.

### Lledu'r A470

**Jonathan Morgan:** A yw'r Gweinidog yn gwybod am unrhyw gynlluniau i ledu'r A470 i'r gogledd o gyffordd 32 yng Nghaerdydd, neu a yw'n bwriadu ariannu cynllun o'r fath? (WAQ29061)

**Andrew Davies:** Mae cyfarwyddiaeth drafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynnal astudiaeth i ganfod ac asesu ffyrdd o wneud gwell defnydd o'r A470 rhwng Pontypridd a chyffordd 32 yr M4. Nododd yr astudiaeth dri phrif amcan: gwella llif y traffig; gwneud yr amser a gymer y siwrnai yn fwy dibynadwy; a hybu gostyngiad yn y traffig.

Mae ymgynghoriad cyhoeddus i gael ei gynnal yn fuan yn Nhongwynlais, ar 27 a 28 Hydref, lle bydd swyddogion o gyfarwyddiaeth drafnidiaeth Llywodraeth y Cynulliad yn egluro'r cynigion y bwriadwn eu rhoi ar waith yn llawn ac yn annog sylwadau oddi wrth y cyhoedd ynglŷn â sut y gellid gwella'r cynigion. Fel rhan o'r ystod o fesurau arfaethedig sy'n cael eu datblygu, efallai y caiff yr ysgwydd galed i gyfeiriad y de rhwng cyffyrdd Radur a Coryton ei defnyddio fel lôn ychwanegol.

### Deddfwriaeth Mynediad

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am y cymorth ariannol a fydd ar gael i helpu busnesau i gydymffurfio â deddfwriaeth mynediad a ddaw i rym fis Hydref 2004? (WAQ29069)

**Andrew Davies:** Nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw gynlluniau i ddarparu cymorth ariannol i ddarparwyr gwasanaeth i'w helpu i gydymffurfio â'r darpariaethau yn Rhan III Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995. Ni fydd gofyn byth i ddarparwyr gwasanaeth wneud dim ond yr hyn sy'n rhesymol i gyflawni eu rhwymedigaethau mynediad. Dewiswyd mis Hydref 2004 fel dyddiad gweithredu er mwyn rhoi amser i ddarparwyr gwasanaeth baratoi ar gyfer y cyfrifoldebau newydd, a disgwyliwn i ddarparwyr gwasanaeth gymryd y dyletswyddau hyn i ystyriaeth wrth gynllunio unrhyw waith adnewyddu.

### Gwella'r A470

**Jonathan Morgan:** Yn sgîl eich ateb i WAQ29061, pa gynigion sy'n cael eu hystyried o ran gwella'r A470 rhwng Pontypridd a chyffordd 32 yr M4? (WAQ29119)

**Andrew Davies:** Mae ystod gytbwys o fesurau yn cael eu datblygu er mwyn gwella llif y traffig a lleihau'r tagfeydd ar yr A470 rhwng Pontypridd a Coryton. Mae'r rhain wedi cael eu trafod yn fras mewn cyfarfodydd ymgynghori gyda rhanddeiliaid allweddol. Mae'r pecyn cynigion yn cynnwys gwella cludiant cyhoeddus, sy'n golygu ehangu'r safleoedd parcio a theithio, gwella'r ddarpariaeth i feicwyr ar y rhwydwaith ffyrdd lleol ac ar gyfnewidfa Coryton, a darparu teledu cylch cyfyng ac arwyddion negeseuon electronig. Yn ogystal, mae gwelliannau cyffordd yn cael eu cynnig ym Mhontypridd (Broadway) a Nantgarw.

Y darn mwyaf tyngedfennol o'r A470, lle ceir y tagfeydd mwyaf, yw'r ffordd tua'r de rhwng Radur a Coryton. Yma, yn ychwanegol at yr uchod, bydd y gwelliannau yn cynnwys defnyddio'r ysgwydd galed bresennol fel lôn ychwanegol i draffig. Mae system canfod ciwiau, llochesau diogelwch a'r posibilrwydd o gyfyngiad cyflymder arafach yn fesurau ychwanegol sy'n cael eu hystyried ar gyfer y darn hwn o'r A470.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### 'Raising Standards and Tackling Workload: A National Agreement'

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar 'Raising Standards and Tackling Workload: A National Agreement'? (WAQ28976) [R]

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cytundeb llwyth gwaith athrawon? (WAQ29025)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Daeth cam cyntaf y newidiadau i gontractau athrawon i rym ym mis Medi. O dan y contract newydd, mae'n ofynnol nad yw athrawon mwyach yn gwneud 24 o dasgau gweinyddol sydd wedi'u rhestru fel mater o drefn, y dylai aelodau'r grŵp arwain mewn ysgolion gael amser rhesymol wedi'i neilltuo er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau, ac y dylai ysgolion ystyried cydbwysedd bywyd a gwaith athrawon wrth osod tasgau. Mae'r newidiadau yn gymwys i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru, ac maent yn ofyniad statudol.

Darparodd Llywodraeth y Cynulliad £3 miliwn eleni i helpu ysgolion, yn enwedig ysgolion llai, i ddelio â throsglwyddo'r tasgau gweinyddol oddi wrth athrawon. Gan fod llawer o'r ysgolion hyn mewn ardaloedd gwledig, gellir defnyddio'r £3.5 miliwn a ddarparwyd ar gyfer ysgolion bach ac ysgolion gwledig i'r diben hwnnw hefyd. Yr oedd yr arian hwnnw yn ychwanegol at y cynnydd o £261 miliwn yn setliad llywodraeth leol eleni, a oedd yn cydnabod yr holl bwysau a oedd wedi'u rhestru gan yr awdurdodau lleol o ran cyflogau a phrisiau, gan gynnwys cyflogau athrawon.

Yr ydym wedi cymryd i ystyriaeth y pwysau tebygol ar awdurdodau lleol ac ysgolion a fydd yn deillio o newidiadau cytundebol yn y dyfodol. Mae'r setliad llywodraeth leol drafft, a gyhoeddwyd yr wythnos hon, yn darparu cynnydd o £152 miliwn, a ddylai fod yn ddigonol gogyfer â'n hasesiad ni o gostau'r pwysau o ran cyflogau a phrisiau a restrwyd gan yr awdurdodau lleol, yn ogystal â darparu £30 miliwn ychwanegol. Mae hynny'n golygu cyfanswm o £33 miliwn i gwrdd â chostau disgwyliedig rhoi'r newid cytundebol ar waith yn 2004-05.

Mae gwneud defnydd mwy o staff cefnogi yn nodwedd allweddol o'r cytundeb. Byddaf yn ymgynghori'n fuan ynghylch rheoliadau drafft o dan adran 133 Deddf Addysg 2002, yn diffinio pa waith na chaiff neb ond athro cymwysedig ei wneud a pha dasgau y mae modd i aelodau staff eraill sy'n cynorthwyo'r athrawon eu gwneud, o dan gyfarwyddyd a goruchwyliaeth athro cymwysedig. Ar yr un pryd, byddaf yn ymgynghori ynghylch safonau ar gyfer cynorthwywyr addysg lefel uwch.

Mae'n ofynnol yn ôl y cytundeb i Lywodraeth y Cynulliad gymryd camau pellach i leihau'r beichiau biwrocrataidd ar athrawon. Yr wyf felly yn cryfhau'r tîm swyddogion sy'n gyfrifol am y gwaith hwn, a bwriadaf benodi panel annibynnol o'r proffesiwn i oruchwylio ei waith, ar batrwm cyffelyb i'r uned adolygu gweithredu yn Lloegr.

### Addysgu Plant am Ddamweiniau yn y Cartref

**Rosemary Butler:** A all y Gweinidog esbonio'n fras sut mae plant yng Nghymru'n cael eu haddysgu am yr hyn sy'n achosi damweiniau yn y cartref? (WAQ29024)

**Jane Davidson:** Fel y gwyddoch, mae addysg bersonol a chymdeithasol mewn ysgolion yn chwarae rôl allweddol yn natblygiad plant, ac un o'i nodau pennaf yw rhoi iddynt wybodaeth a sgiliau ar gyfer bywyd fel oedolion. Mae cyfnodau allweddol 1 a 2 o fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol Cymru yn rhoi gwybodaeth i blant am beryglon corfforol yn y cartref a'u helpu i'w deall, ynghyd â sylweddoli sut mae bod yn ddiogel yno. Datblygodd Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru y fframwaith hwn yn 2000 ar yr un pryd ag y cyflwynwyd y cwricwlwm cenedlaethol i Gymru. Mae'r fframwaith ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn dod â'r arferion gorau o ysgolion ar draws Cymru ynghyd a chafodd ei weithredu ar sail anstatudol gydag ymrwymiad i adolygu'r statws hwn. Ar ôl cael cyngor pellach gan ACCAC, penderfynais y dylai addysg bersonol a chymdeithasol fod yn hawl statudol i bob person ifanc, a daeth yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol yng Nghymru o fis Medi 2003.

### Lleihau Maint Dosbarthiadau Mewn Ysgolion Cynradd

**Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei pholisi ynghylch lleihau maint dosbarthiadau mewn ysgolion cynradd yng Nghymru? (WAQ29026)

**Jane Davidson:** Mae cyfyngiad statudol ar nifer y plant mewn dosbarthiadau oed babanod, ac mae maint dosbarthiadau babanod yn dal i fod ar y lefel isaf erioed yng Nghymru. Mae'r cyllid ychwanegol yr ydym wedi'i dargedu a'i ddarparu am dair blynedd yn olynol hefyd wedi arwain at leihau maint dosbarthiadau iau ledled Cymru. Ym mis Medi 2000, yr oedd 29 y cant o ddisgyblion ysgol iau mewn dosbarthiadau oedd yn cynnwys mwy na 30 o blant. Ym mis Medi 2002, yr oedd y ffigur hwn wedi gostwng i 17 y cant. Yr oedd nifer y dosbarthiadau mawr iawn o fwy na 35 wedi gostwng o 112 yn 2000 i 28 yn 2002. Y targed ar gyfer mis Medi 2003 oedd gostwng nifer y dosbarthiadau sydd â mwy na 30 o ddisgyblion i ddim fwy neu lai. Dylai canlyniadau cyfrif maint dosbarthiadau mis Medi fod yn hysbys cyn diwedd 2003.

### Dyslecsia

**Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint o athrawon Cymru sydd wedi bod ar gyrsiau er mwyn dysgu sut i nodi a thrin dyslecsia? (WAQ29027)

**Jane Davidson:** Nid oes gwybodaeth am nifer yr athrawon sydd wedi bod ar gyrsiau hyfforddi o'r fath yn cael ei chadw'n ganolog.

Yr wyf serch hynny wedi darparu arian ychwanegol, drwy grantiau cynnal addysg a hyfforddiant, i alluogi awdurdodau addysg lleol i ddarparu hyfforddiant i athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu, gan gynnwys y rheini sy'n dysgu plant â dyslecsia.

Yr wyf yn ymwybodol hefyd fod awdurdod addysg lleol Abertawe wedi datblygu model i ysgolion sy'n ystyriol o ddyslecsia a bod hwn yn cynnwys cyrsiau sydd wedi'u hachredu gan Gymdeithas Ddyslecsia Prydain ar gyfer athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu. Credaf fod nifer o awdurdodau addysg lleol eraill yng Nghymru un ai wedi mabwysiadu'r model hwn neu yn ystyried ei fabwysiadu.

### Prifysgol Cymru

**Jenny Randerson:** Pa drafodaethau sydd wedi bod rhwng y Gweinidog a Phrifysgol Cymru ynghylch y cynlluniau i uno sefydliadau addysg uwch yng Nghymru? (WAQ29028)

**Jane Davidson:** Cyfarfûm â chynrychiolwyr o Brifysgol Cymru ar 7 Hydref. Yr wyf hefyd wedi cwrdd â chyrff llywodraethu sawl sefydliad addysg uwch yng Nghymru i drafod eu cynigion ad-drefnu, a bwriadaf gwrdd â chynrychiolwyr pob un o'r sefydliadau erbyn diwedd y flwyddyn galendr.

### Rhaglen Sgrinio Clyw'r Newydd-anedig

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl ymyrraeth gynnar o ran helpu i ddatblygu lleferydd ac iaith plant ifanc iawn sydd wedi cael eu diagnosio ag anawsterau clywed drwy'r rhaglen £1.75 miliwn i sgrinio clyw'r newydd-anedig sydd ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd? (WAQ29029) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.***

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Mae rhaglen sgrinio clyw'r newydd-anedig yn golygu bod modd canfod diffyg clyw difrifol yn wythnosau cyntaf bywyd y plentyn, a dylai arwain at welliannau o ran datblygiad iaith a datblygiad cyffredinol y plentyn a'r teulu. Cafodd y rhaglen ei lansio mewn rhannau o ogledd Cymru ym mis Mawrth 2003 a bwriedir iddi gael ei chyflwyno'n llawn yn 2004.

Yn ogystal, mae'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes a minnau yn ymgynghori ar hyn o bryd ynglŷn â'r gwasanaethau iaith a lleferydd fydd yn cael eu darparu yn y dyfodol.

## Darparu Cyllid GEST

**Ann Jones:** Pa drafodaethau sydd wedi bod rhwng y Gweinidog ac awdurdodau addysg lleol y Gogledd ynghylch darparu cyllid drwy'r rhaglen grantiau cynnal addysg a hyfforddiant ar gyfer llyfrau a deunyddiau'r cwricwlwm? (WAQ29030)

**Jane Davidson:** Mae rhaglen y grantiau cynnal addysg a hyfforddiant wedi cael ei datblygu o flwyddyn i flwyddyn mewn ymgynghoriad ag awdurdodau addysg lleol, Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru, Estyn, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ac eraill. Wrth wneud newidiadau, ystyrir y gwerthuso parhaus ar y rhaglen yn ogystal â thystiolaeth o arolygiadau Estyn a'r blaenoriaethau polisi sy'n dod i'r amlwg. Gwnaed y penderfyniad i derfynu'r arian a oedd yn cael ei ddarparu ar gyfer llyfrau newydd a deunyddiau eraill ar ôl trafodaethau manwl gyda chynrychiolwyr AALlau am y grantiau cynnal addysg a hyfforddiant, a gynhaliwyd yn ystod haf 2002. Ymgynghorodd fy swyddogion yn ffurfiol wedyn ag awdurdodau addysg lleol ac eraill drwy gyhoeddi'r cylchlythyr drafft a thrwy'r cyfarfod ymgynghori blynyddol gyda chydgysylltwyr y grantiau cynnal addysg a hyfforddiant, oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o ogledd Cymru. Caiff cylchlythyr drafft GCAH ar gyfer 2004-05 ei gyhoeddi'n fuan.

## Addysg Cyfrwng Cymraeg

**Nick Bourne:** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i helpu addysg cyfrwng Cymraeg? (WAQ29031)

**Jane Davidson:** Mae ein fframwaith strategol i helpu addysg Gymreig a chyfrwng Cymraeg wedi'i nodi yn 'Iaith Pawb', a lansiwyd yn ffurfiol ym mis Chwefror 2003. Ers hynny, yr ydym wedi:

- comisiynu archwiliad o'r ddarpariaeth gyfredol o ran hyfforddiant ac anghenion datblygu ym maes addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog y blynyddoedd cynnar;
- darparu £2 filiwn yn 2004-05 i wella a chynyddu'r hyfforddiant a'r ddarpariaeth ym maes addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog y blynyddoedd cynnar;
- darparu £400,000 i ACCAC yn 2004-05 i'w helpu gyda'i waith ar ddeunyddiau a chymwysterau cyfrwng Cymraeg;
- sicrhau bod dwyieithrwydd yn faes dysgu ar wahân o fewn ein cynigion gogyfer â chyfnod sylfaen;
- rhoi'r cyfrifoldeb i ACCAC i gynghori ynglŷn â materion yn ymwneud â pharhad ieithyddol a mesur cynnydd disgyblion ar hyd continwwm ieithyddol;
- trefnu bod trafodaethau cychwynnol yn cael eu cynnal gydag awdurdodau addysg lleol ynglŷn â diffinio darpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- cyllido penodiad cyfarwyddwr prosiectau, o fis Medi 2003, i ddatblygu a gweithredu prosiectau peilot i sefydlu ail bwyntiau mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg;
- rhoi'r cyfrifoldeb i'r Cyngor Cenedlaethol—ELWa i sicrhau bod ystod y cyfleoedd sy'n ei gwneud yn bosibl dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau gydol oes;
- mynnu, fel amod ynghlwm wrth ei thrwydded, fod yr Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector yn sicrhau bod gan gynghorau sgiliau sector gynllun iaith Gymraeg;
- mynnu, y llythyr cylch gwaith 2003-04 y tri phrif gorff addysg a hyfforddiant a noddir gan y Cynulliad, eu bod yn sicrhau bod y Gymraeg yn rhan o brif ffrwd eu mecanweithiau datblygu polisi a chyflwyno rhaglenni;
- ystyried adroddiad gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym myd addysg uwch a'r galw amdani yn y dyfodol; a
- chymeradwyo pedwar cynnig statudol gan awdurdodau addysg lleol Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg i gynyddu'r ddarpariaeth o ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Bydd mesurau pellach yn dilyn fel a nodwyd yn 'Iaith Pawb' gan gynnwys, o 2005-06, drefniadau ar gyfer cyfnodau sabothol i athrawon ac ymarferwyr mewn ysgolion ac addysg bellach.

## Cyllid Addysgol yn y Canolbarth a'r Gorllewin

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyllid addysgol yn y Canolbarth a'r Gorllewin? (WAQ29032)

**Jane Davidson:** Dangosai'r papur a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 9 Gorffennaf 2003—cyfeirnod ELL (2) 02-03 (td.2)—fod awdurdodau Cymru, yn gyffredinol, wedi cynyddu eu cyllidebau ysgolion unigol 10.1 y cant a'u cyllidebau addysg cyffredinol 9.7 y cant yn 2003-04. Mae ffigurau am yr awdurdodau unigol wedi'u cynnwys yn y papur.

## Chwaraeon Cyffwrdd mewn Ysgolion Uwchradd

**David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ganiatáu chwaraeon cyffwrdd mewn ysgolion uwchradd? (WAQ29033)

**Jane Davidson:** Wrth gyflawni gofynion rhaglen astudio'r cwricwlwm cenedlaethol gogyfer ag addysg gorfforol, mae'n ofynnol i bob ysgol ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau er mwyn iddynt ddatblygu a defnyddio eu sgiliau mewn sefyllfaoedd sy'n briodol i'w gallu. Er enghraifft, yng nghyfnod allweddol 3, dylid dysgu ymarfer corff sy'n ymwneud ag iechyd a dylid rhoi cyfle i ddisgyblion i gymryd rhan mewn pedwar gweithgaredd o blith y canlynol: gemau, gymnasteg, dawns, nofio, athletau a gweithgareddau awyr agored ac anturus. O fewn y fframwaith hwn, fodd bynnag, mater i athrawon yw penderfynu ar union ystod a chymysgedd y gweithgareddau a gynigir i ddisgyblion yng nghyd-destun cynllun gwaith yr ysgol a'r cyfleusterau sydd ar gael, a gallent gynnwys chwaraeon cyffwrdd.

Wrth gyflwyno addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol mae'n ofynnol i bob athro gadw at y gofynion yn ymwneud â diogelwch disgyblion sydd wedi'u nodi ym mholisi iechyd a diogelwch yr ysgol. Dylai'r polisi ategu'r canllawiau iechyd a diogelwch perthnasol a baratowyd gan yr awdurdod lleol. Yn ogystal, mae'r Comisiwn Iechyd a Diogelwch yn cyhoeddi canllawiau i gyrff llywodraethu ar faterion iechyd a diogelwch.

## Y Fargen Newydd

**Lorraine Barrett:** A all y Gweinidog wneud datganiad ar hynt y fargen newydd yn Ne Caerdydd a Phenarth? (WAQ29034)

**Jane Davidson:** Caiff y Fargen Newydd ei rhoi ar waith yng Nghymru gan Canolfan Byd Gwaith ac nid cyfrifoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru mohoni felly. Serch hynny, mae'n werth nodi llwyddiant y Fargen Newydd yng Nghymru. Mae'r Fargen Newydd wedi helpu 30,700 o bobl yng Nghymru i gael hyd i swydd, tra bod 8,700 wedi cael swyddi drwy'r Fargen Newydd i'r Rhai Dros 25 a 14,700 drwy'r Fargen Newydd ar gyfer rhieni unigol (ffigurau diwedd Mehefin 2003).

O ran etholaeth De Caerdydd a Phenarth, mae 2,230 o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn y rhaglen ac mae 1,230 wedi cael help i gael swydd (rhwng Ebrill 1998 a Mehefin 2003). O ran y rhai fu'n ddi-waith dros gyfnod hir (dros 25), mae 750 wedi cymryd rhan yn y rhaglen ar ei newydd wedd, a 240 wedi cael help i gael hyd i swydd (rhwng Ebrill 2001 a Mehefin 2003). Nid oes data ar gael ar hyn o bryd am y Fargen Newydd ar gyfer rhieni unigol nac am y rhai fu'n ddi-waith dros gyfnod hir cyn mis Ebrill 2001.

## Diogelwch Disgyblion

**Lorraine Barrett:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod disgyblion yn ddiogel yn ysgolion Cymru? (WAQ29035)

**Jane Davidson:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ24229 ar 22 Mai 2003.

### Gwahaniaethau mewn Cyllid

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad er mwyn esbonio pam mae dosbarth 6 yn cael ei ariannu ar sail cymhareb athro-disgybl o 1:30, a blwyddyn 7 ar gymhareb athro-disgybl o 1:21? (WAQ29057)

**Jane Davidson:** Mae'r awdurdodau addysg lleol yn aml yn defnyddio cymarebau athro-disgybl yn eu fformiwlâu ar gyfer dosbarthu cyllid dirprwyedig i ysgolion. Mater i bob awdurdod, yn sgîl ymgynghori â'i ysgolion ynglŷn â chyfansoddiad y fformiwla ariannu, yw sut y mae yn eu defnyddio.

### Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Byddar

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ganlyniad ei chyfarfod ar 10 Medi 2003 gyda Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Byddar ynghylch darpariaeth addysg i blant byddar yng Nghymru? (WAQ29070)

**Jane Davidson:** Yr oedd fy nghyfarfod gyda'r RNID ar 10 Medi yn un cynhyrchiol iawn. Ymysg y pynciau a drafodwyd yr oedd canlyniadau'r adroddiad a baratowyd gan yr RNID, a gyllidwyd yn rhannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, i edrych ar y gwasanaeth a ddarperir i blant rhwng 0 a 2 oed sydd ag anawsterau clywed, y ddarpariaeth addysg i blant â nam ar eu clyw ar draws Cymru, a'r hyfforddiant a roddir i athrawon y rhai sydd â nam ar eu clyw. Cefais fy nghalonogi gan y ffaith bod llawer o'r materion a godwyd gan yr RNID eisoes yn cael eu hystyried gan grŵp o swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol ac awdurdodau addysg lleol, sy'n drafftio adroddiad imi am y gwasanaethau addysgol sydd ar gael. Gobeithiaf gyhoeddi'r adroddiad hwn at ddibenion ymgynghori yn ddiweddarach eleni.

### Sgrinio Clyw Babanod Newydd-anedig Ledled Cymru

**Ann Jones:** Yn dilyn ei chyfarfod ar 10 Medi 2003 gyda'r RNID ynghylch y ddarpariaeth addysg i blant byddar yng Nghymru, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch penodi rhagor o athrawon i'r byddar, datblygu deunydd addas a sefydlu rhaglenni datblygu staff, sydd oll yn angenrheidiol o ganlyniad i'r ffaith y cyflwynwyd cynllun sgrinio clyw babanod newydd-anedig ledled Cymru? (WAQ29071)

**Jane Davidson:** Yr wyf yn ymwybodol mai amrywiol yw lefel y gwasanaeth a gyflenwir yng Nghymru ar gyfer plant ag anableddau llai cyffredin. Gyda hynny mewn golwg, yr wyf wedi sefydlu adolygiad o'r ddarpariaeth gyfredol. Mae'r grŵp llywio cenedlaethol ar anghenion addysgol arbennig yn ymgymryd â'r adolygiad ar y cyd ag awdurdodau addysg lleol, cyrff gwirfoddol a phartïon eraill sydd â diddordeb yn y maes. Rhagwelaf y bydd yr adroddiad a gynhyrchir gan y gweithgor hwn ar gael imi yn ddiweddarach y mis hwn. Yr wyf yn disgwyl i'r adroddiad, a fydd yn cynnwys safonau gofynnol o ran darparu gwasanaeth, ynghyd ag opsiynau o ran modelau darparu, gael ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori yn ddiweddarach eleni. Yn dibynnu ar yr ymatebion a ddaw i law, byddaf yn ystyried cyhoeddi canllawiau ynglŷn â'r safon ofynnol o ran lefel y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru, y nodwyd bod ganddo nam ar ei glyw, yn cael cymorth addysgol priodol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

### Cais Cynllunio i estyn Pwll y Dwyrain

**Glyn Davies:** Pryd y cyflwynwyd y cais cynllunio i estyn Pwll y Dwyrain ger Gwauncaegurwen, pryd y daeth yr awdurdod lleol i benderfyniad yn ei gylch, a phryd y gwnaed y penderfyniad i 'alw'r cais i mewn'? (WAQ29049)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Gwnaeth Celtic Energy Cyf gais am ganiatâd cynllunio i ymestyn y safle glo brig presennol ac yna i adfer a rheoli ôl-ofal Pwll y Dwyrain ar 8 Awst 2001. Yr oedd y cyngor â'i fryd ar wrthod caniatâd a thynnodd yr ymgeiswyr y

cais yn ôl ar 3 Mai 2002. Cyflwynodd Celtic Energy Cyf gais cynllunio diwygiedig ar 31 Gorffennaf 2002. Ar 17 Chwefror 2003, penderfynodd pwyllgor cynllunio'r awdurdod lleol ganiatáu'r cais diwygiedig, yn ddarostyngedig i amodau. Gofynnodd nifer o lythyrwyr i'r Cynulliad ystyried galw'r cais i mewn, a daeth y cyntaf o'r ceisiadau hyn i law ar 21 Chwefror. Penderfynodd Sue Essex AC (y Gweinidog oedd yn gyfrifol am gynllunio ar y pryd) alw'r cais cynllunio i mewn ar 3 Ebrill.

**Cais Cynllunio i estyn Pwll y Dwyrain**

**Glyn Davies:** A oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer yr ymchwiliad cyhoeddus i'r cais diwygiedig i estyn Pwll y Dwyrain ger Gwauncaegurwen? (WAQ29050)

**Carwyn Jones:** Nid yw'r prif bartïon wedi cytuno ar ddyddiad eto, ond mae'r arolygiaeth gynllunio yn disgwyl cytundeb yn fuan iawn. Mae rhag-gyfarfod yr ymchwiliad eisoes wedi cael ei drefnu, a chaiff ei gynnal yn y ganolfan ddinesig ym Mhort Talbot ar 29 Hydref.

**Cais Cynllunio i estyn Pwll y Dwyrain**

**Glyn Davies:** Pam y penderfynwyd galw'r cais cynllunio i estyn Pwll y Dwyrain ger Gwauncaegurwen i mewn? (WAQ29051)

**Carwyn Jones:** Bydd Llywodraeth y Cynulliad ddim ond yn galw cais i mewn os yw'r cais hwnnw yn codi materion sydd o bwys ehangach nag ystyriaethau lleol yn unig. Penderfynodd Sue Essex AC, tra'r oedd yn Weinidog dros yr Amgylchedd, fod y cais yn codi materion o bwys ehangach nag ystyriaethau lleol yn unig, gan y gallai'r datblygu gael effaith eang neu gallai achosi dadlau sylweddol y tu hwnt i'r ardal leol. Daeth i'r casgliad fod hyn yn cyfiawnhau penderfynu galw'r cais i mewn.

**Cais Cynllunio i estyn Pwll y Dwyrain**

**Glyn Davies:** Pwy benderfynodd i alw'r cais i estyn Pwll y Dwyrain ger Gwauncaegurwen i mewn? (WAQ29052)

**Carwyn Jones:** Sue Essex AC, tra'r oedd yn Weinidog y Llywodraeth dros yr Amgylchedd.

**Hyfforddi ar gyfer Rheolwyr Caffael Bwyd**

**Michael German:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i ddarparu pecyn hyfforddi ar gyfer rheolwyr caffael bwyd yn y sector cyhoeddus i'w galluogi i brynu mwy o gynnyrch Cymreig? (WAQ29053)

**Carwyn Jones:** Mae grŵp llywio Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gaffael bwyd lleol, drwy weithio gyda chyfarwyddiaeth fwyd y WDA a thîm menter gaffael Cymru, yn parhau i ddatblygu mesurau lleol a chenedlaethol gyda'r bwriad o gynyddu ymwybyddiaeth a gwella sylfaen gwybodaeth rheolwyr caffael bwyd. Bydd menter gaffael Cymru yn arwain cyrsiau yn 2004 ar gyfer cymuned gaffael y sector cyhoeddus yng Nghymru, a fydd yn nodi cyfleoedd i 'brynu'n llai' (er enghraifft, drwy newid manylebau tendro) a 'phrynu'n lleol' (er enghraifft, drwy ddatblygu cysylltiadau â chyflenwyr lleol).

**Prosiectau Cyswllt Ffermio yn Ardaloedd Amcan 2**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y trafodaethau y mae'r Cynulliad a Bwrdd Croeso Cymru wedi'u cael ynghylch cynyddu'r cyllid a roddir i brosiectau Cyswllt Ffermio sy'n gysylltiedig â thwristiaeth mewn ardaloedd Amcan 2? (WAQ29072)

**Carwyn Jones:** Mae cyllid ar gael i ffermwyr ar gyfer prosiectau Cyswllt Ffermio sy'n gysylltiedig â thwristiaeth mewn ardaloedd Amcan 2, ond mae cystadleuaeth gref am yr adnoddau sydd ar gael a rhaid i fusnesau ffermio gystadlu gyda busnesau eraill bach a chanolig eu maint. Mae trafodaethau'r Cynulliad

gyda Bwrdd Croeso Cymru wedi canolbwyntio ar ymchwilio i'r posibiliadau o sicrhau cyllid ychwanegol, ac mae'r trafodaethau hyn yn parhau. Deallaf fod y bwrdd croeso yn y broses o wneud cais am gyllid oddi wrth raglen Amcan 2. Yr wyf yn ymwybodol iawn o'r rhwystredigaeth y mae'r oedi yn ei achosi i ffermwyr yn nwyrain Cymru, ac yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion gadw llygad manwl ar hynt y mater hwn. Byddant yn cwrdd â Jonathan Jones o'r bwrdd croeso yn fuan i drafod a oes unrhyw beth arall y gellir ei wneud i leddfu'r sefyllfa.

### Cynllun Lliniaru Llifogydd Stryd Mwrog

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y trafodaethau a gafwyd rhwng ei swyddogion a Chyngor Sir Ddinbych ddydd Gwener 10 Hydref 2003 ynghylch cynllun lliniaru llifogydd Stryd Mwrog? (WAQ29073)

**Carwyn Jones:** Ddydd Gwener, 10 Hydref, cyfarfu fy swyddogion â swyddogion Cyngor Sir Ddinbych ac archwilio'r gwaith a oedd wedi'i wneud ar gynllun lliniaru llifogydd Stryd Mwrog. Trafodwyd natur a maint amrywiadau'r cynllun, sydd wedi arwain at gynnydd yng nghostau'r prosiect, yn y cyfarfod ac wrth iddynt archwilio'r cynllun wedi hynny. O ganlyniad, mae fy swyddogion mewn sefyllfa well erbyn hyn i asesu a ddylid rhoi grant ar gyfer yr amrywiadau hynny i'r cynllun. Fodd bynnag, er mwyn asesu'r amrywiadau yn llawn, bydd angen gwybodaeth bellach, ac mae cais wedi ei wneud ar i swyddogion y cyngor ddarparu gwybodaeth bellach i gynorthwyo gyda'r asesiad hwnnw.

### Amersham Plc

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyfnod sydd ar gael i'r cyhoedd ymateb i gynigion drafft Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch ail-gyhoeddi caniatâd i Amersham plc, ac a wnaiff egluro sut y gellir gwneud yr ymatebion hyn, ac at bwy y dylid eu hanfon? (WAQ29077)

**Rhodri Glyn Thomas:** Pryd y bydd y Gweinidog yn gwneud penderfyniad ar gynigion drafft Asiantaeth yr Amgylchedd i ail-gyhoeddi caniatâd i Amersham plc? (WAQ29078)

**Carwyn Jones:** Rhwng 2001 a 2003, aeth Asiantaeth yr Amgylchedd ati i ystyried yn fanwl y cais oddi wrth Amersham plc am amrywio caniatâd y cwmni i ryddhau gollyngiadau ymbelydrol ar ei safle yng ngogledd Caerdydd. Yr oedd hyn yn cynnwys ymgynghori â chyrff cyhoeddus, pobl leol a grwpiau sydd â buddiant yn y mater. Erbyn hyn, mae'r asiantaeth wedi cyflwyno ei phenderfyniad arfaethedig i Lywodraeth Cynulliad Cymru i alluogi'r Gweinidogion i ystyried pa un i arfer eu pwerau statudol o dan Ddeddf Sylweddau Ymbelydrol 1993. Gobeithiaf benderfynu'n fuan pa un i arfer pwerau statudol o dan Ddeddf 1993 yng nghyswllt penderfyniad arfaethedig Asiantaeth yr Amgylchedd ar y cais hwn.

Mae'r rhyddid gennyf o hyd i ymyrryd a chyfarwyddo'r asiantaeth i amrywio neu ddirymu caniatâd o dan Ddeddf Sylweddau Ymbelydrol 1993 ar unrhyw adeg, pe bai'r amgylchiadau yn gwneud hynny'n ofynnol. Byddwn felly yn croesawu sylwadau ar bob agwedd lywodraethu, gan gynnwys gweithgareddau Asiantaeth yr Amgylchedd a'r trwyddedau y bydd efallai yn eu rhoi, a hynny heb unrhyw amserlen benodedig.

### Strategaeth Pysgodfeydd Cymru

**Mick Bates:** A all y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf i mi ynghylch y cynnydd o ran sicrhau y rhoddir strategaeth pysgodfeydd Cymru ar waith erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon? (WAQ29080)

**Carwyn Jones:** Bydd tair prif elfen i'r strategaeth. Yn gyntaf, mae'r strategaeth i 'ddatblygu sector pysgodfeydd a dyframaethu Cymru' wedi cael ei chwblhau a'i chyhoeddi, ac mae copïau ar gael yn y Llyfrgell. Yn ail, mae 'strategaeth gogyfer â physgodfeydd hamdden Cymru' wedi cael ei chwblhau ac mae cynllun gweithredu yn cael ei baratoi i fynd law yn llaw â'r strategaeth. Mae'r drydedd elfen yn canolbwyntio ar ganlyniad adolygiad 2002 o bolisi pysgodfeydd cyffredin yr UE a'i effeithiau ar ddiwydiant pysgota Cymru. Mae i hwn ddimensiynau sy'n ymledu ar draws y DU ac, yn ddiweddar,

cyfarwyddodd y Prif Weinidog uned strategaeth Swyddfa'r Cabinet i archwilio'r opsiynau o ran diwydiant pysgota cynaliadwy i'r DU yn y tymor canolig i hir. Bydd yr uned, mewn partneriaeth â phedwar Gweinidog pysgodfeydd y DU a rhanddeiliaid o'r diwydiant, yn cynhyrchu dogfen strategaeth yn ddiweddarach eleni, a byddaf am ystyried y ddogfen honno cyn penderfynu ar wedd derfynol strategaeth Cymru gyfan.

### Yr Arsyllfa Wledig

**Glyn Davies:** Beth yw'r costau a amcangyfrifir o redeg yr arsyllfa wledig mewn blwyddyn ariannol lawn? (WAQ29126) *Rhoddwyd ateb diwygiedig i'r cwestiwn uchod ar 28 Hydref 2003.*

**Carwyn Jones:** Darpariaeth gyllidebol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer yr arsyllfa wledig yw £300,000.

### Canfod a Rheoli TB mewn Gwartheg

**Carl Sargeant:** Pa fesurau tymor byr y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cyflwyno yn ystod y 12 mis nesaf i wella'r gwaith o ganfod a rheoli TB mewn gwartheg? (WAQ29127)

**Carwyn Jones:** Mae adolygiad polisi ar y gweill ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn cydweithrediad ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Bydd yr adolygiad yn arwain at strategaeth i Brydain gyfan ar gyfer delio â TB mewn gwartheg, a chaiff y strategaeth ei chyhoeddi er mwyn ymgynghori'n eang yn ei chylch yn ddiweddarach eleni.

### Canfod a Rheoli TB mewn Gwartheg

**Carl Sargeant:** Pa fesurau y mae'r Gweinidog wedi'u cyflwyno yn ystod y deuddeg mis diwethaf i wella'r gwaith o ganfod a rheoli TB mewn gwartheg? (WAQ29128)

**Carwyn Jones:** Dros y 12 mis diwethaf, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar y cyd â Llywodraeth y DU, wedi cyflwyno pecyn o fesurau a fwriadwyd i ymdrin â'r nifer cynyddol o achosion o TB mewn gwartheg hyd nes y bydd canlyniadau'r rhaglen ymchwil yn hysbys. Yn ychwanegol at wneud cais am adnoddau ychwanegol i brofi am TB, mae pedwar cam wedi cael eu rhoi ar waith:

1. newidiadau gweinyddol i leddu effeithiau economaidd y cyfyngiadau symud ar fuchesau y mae TB wedi effeithio arnynt;
2. astudiaeth beilot o'r prawf interfferon gama a dehongli'r prawf croen yn drylwyr;
3. rhoi rhagor o fuchesau a ddylai fod wedi cael profion TB cyn hyn o dan gyfyngiadau symud; a
4. sefydlu grŵp diwydiant, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Gymru, i fonitro hynt y mesurau sydd wedi'u sefydlu i wrthsefyll TB mewn gwartheg.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

### Cost Ymgynghorwyr Allanol

**Lisa Francis:** A all y Gweinidog ddweud wrthyf faint wariodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar wasanaeth ymgynghorwyr allanol yn ystod y Cynulliad cyntaf? (WAQ27841)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 9 Medi 2003.*

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Rhwng 1999-2000 a 2002-03, gwariodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru £7.9 miliwn o'i gyllideb gweinyddiaeth ganolog ar gyngor cyfreithiol, gwasanaethau cyfrifeg, penseiri a chyngor cynllunio, ymgynghorwyr rheoli, marchnata a chyhoeddusrwydd, gwasanaethau

ystadegol ac astudiaethau ymchwil. Mae hyn yn cynrychioli 1.6 y cant o'r gyllideb gweinyddiaeth ganolog.

Mae'r tabl isod yn nodi'r manylion am bob blwyddyn ariannol o dan y Cynulliad cyntaf.

| | **1999-2000** | **2000-01** | **2001-02** | **2002-03** |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant blynyddol (£ miliwn) | 1.8 | 2.3 | 1.9 | 1.9 |
| Canran o'r gyllideb gweinyddiaeth ganolog | 2.0 | 1.9 | 1.5 | 1.3 |

Yn ogystal, bydd rhywfaint o arian wedi cael ei wario ar gontractau ymchwil, gwerthuso ac ymgynghorwyr o gyllidebau rhaglenni er mwyn cynorthwyo amcanion polisi'r Cynulliad yn uniongyrchol. Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu na'i dal yn ganolog.

### Ymweliadau â'r Alban gan Dîm Adeilad Newydd y Cynulliad

**Nick Bourne:** Sawl gwaith y mae aelodau o dîm adeilad newydd y Cynulliad wedi ymweld â Chaeredin ar fusnes y Cynulliad? (WAQ28680)

**Sue Essex:** Bu dau ymweliad ag adeilad Senedd yr Alban. Uwch aelodau'r tîm, ynghyd â thîm rheoli'r prosiect, fu ar yr ymweliad cyntaf. Y prif bynciau trafod oedd caffael a rheoli risg. Aeth saith aelod o'r tîm ar yr ail ymweliad, a chanolbwyntiodd cynghorydd proffesiynol y Cynulliad ar hynt yr adeiladu, datblygu'r dyluniad a darparu'r holl offer a gosodion angenrheidiol yn yr adeilad.

### Cyfrifoldeb dros Gynnal a Chadw a Glanhau Tir

**Leighton Andrews:** Pa gyfrifoldebau sydd gan awdurdodau lleol i nodi perchenogaeth tir sy'n aneglur er mwyn sicrhau bod y gwaith sylfaenol o gynnal a chadw a glanhau tir o'r fath yn cael ei wneud? (WAQ28970)

**Sue Essex:** Mae adran 215 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi'r grym i awdurdodau cynllunio lleol gyflwyno rhybuddion i berchnogion a deiliaid tir, lle bo cyflwr y tir yn cael effaith andwyol ar amwynder tir arall yn y cyffiniau, yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gywiro'r cyflwr hwnnw o fewn cyfnod penodedig. Mae gan yr awdurdodau hefyd y pŵer i fynnu bod gwybodaeth yn cael ei darparu am fuddiannau mewn tir sy'n destun rhybuddion o'r fath.

### Gwariant gan Awdurdodau Lleol ar Bob Plentyn ar Gyfartaledd

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog nodi mewn tabl y ffigurau diweddaraf sy'n dangos faint y mae pob awdurdod lleol yn ei wario ar gyfartaledd ar bob plentyn? (WAQ29054)

**Sue Essex:** Cyflwynwyd dadansoddiad manwl o gyllidebau'r awdurdodau addysg lleol am 2003-04 mewn papur i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 9 Gorffennaf 2003 (papur 2). Detholiad o'r papur hwnnw sydd ynghlwm.

**Cyfanswm cyllidebau ysgolion yr awdurdodau addysg lleol fesul disgybl, 2003-04 (a)**

| **Awdurdod** | **(£ fesul disgybl)** |
|---|---|
| Ynys Môn | 3,818 |
| Gwynedd | 3,675 |
| Conwy | 3,510 |
| Sir Ddinbych | 3,242 |
| Sir y Fflint | 3,203 |
| Wrecsam | 3,424 |
| Powys | 3,766 |
| Ceredigion | 4,119 |
| Sir Benfro | 3,657 |

| | |
|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 3,829 |
| Abertawe | 3,501 |
| Castell-nedd Port Talbot | 3,698 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 3,349 |
| Bro Morgannwg | 3,185 |
| Caerdydd | 3,362 |
| Rhondda Cynon Taf | 3,423 |
| Merthyr Tudful | 3,676 |
| Caerffili | 3,410 |
| Blaenau Gwent | 3,608 |
| Tor-faen | 3,549 |
| Sir Fynwy | 3,409 |
| Casnewydd | 3,417 |
| **Cymru** | **3,499** |

(a) Mae cyfanswm cyllidebau'r ysgolion yn cynnwys symiau a ddirprwyir i'r ysgolion a symiau sy'n cael eu dal yn ganolog. Mae'r ffigurau ar sail net, hynny yw, net o wariant a ariannir drwy grantiau penodol oddi wrth y Llywodraeth, o fewn cyllideb ysgolion lleol yr awdurdodau. Mae grant y Cyngor Cenedlaethol—ELWa ar gyfer darpariaeth ôl-16 wedi'i gynnwys. Mae'r niferoedd disgyblion a ddefnyddir wedi'u seilio ar y niferoedd disgyblion cyfwerth ag amser llawn mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, fel y'u datganwyd yn rhan 1 datganiad adran 52 ar gyfer 2003-04.

**Ymweliadau â'r Alban gan Dîm Adeilad Newydd y Cynulliad**

**Nick Bourne:** Yn ychwanegol at WAQ28674 i WAQ28681, a yw tîm adeilad newydd y Cynulliad wedi ymweld â'r Alban ar achlysuron eraill, a beth oedd cost yr ymweliadau hynny? (WAQ29055)

**Sue Essex:** Fel a ddywedwyd mewn ymateb i WAQ28680, cynhaliwyd yr ymweliad cyntaf gan uwch aelodau'r tîm ynghyd â thîm rheoli'r prosiect, a'r prif bynciau trafod oedd caffael a rheoli risg. Ddechrau mis Chwefror 2003 y bu'r ymweliad hwnnw, ac yr oedd y gost oddeutu £1,300.

**Talu Cynghorwyr Hir eu Gwasanaeth**

**Nick Bourne:** Pa dystiolaeth sydd gan y Gweinidog bod talu cynghorwyr hir eu gwasanaeth i ymddeol yn mynd i annog rhagor o bobl ifanc, gwragedd a phobl o leiafrifoedd ethnig i sefyll mewn etholiad? (WAQ29085)

**Sue Essex:** Yr oedd cyflwyno cynllun o'r fath yn un o argymhellion adroddiad Declan Hall o Brifysgol Birmingham, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, fel ffordd o annog mwy o amrywiaeth yn siambrau'r cynghorau. Nid oes gennym dystiolaeth yn y DU, gan nad oes cynllun o'r fath wedi cael ei roi ar waith, ond nododd yr adroddiad gynllun taliad ymddiswyddo untro a gyflwynwyd gan Weriniaeth Iwerddon yn 1999, a chanfu fod y cynllun wedi annog cynghorwyr hŷn i adael eu swyddi ac wedi caniatáu i aelodau newydd ddod yn eu lle.

**Taliadau i Gynghorwyr am Wasanaeth Hir**

**Nick Bourne:** Beth yw'r amcangyfrif o'r gost i bob awdurdod lleol yng Nghymru o dalu'r taliadau am wasanaeth hir arfaethedig i gynghorwyr? (WAQ29087)

**Sue Essex:** Rhagdybiaf eich bod yn cyfeirio at y dyfarndaliadau am wasanaeth a roddwyd. Nid oes unrhyw gost ar wahân i'r costau gweinyddol, pe baent yn penderfynu cyflwyno'r cynllun.

### Adrannau Gwybodaeth i'r Cyhoedd Awdurdodau Lleol

**Glyn Davies:** Faint o awdurdodau lleol yng Nghymru sydd wedi sefydlu, neu'n bwriadu sefydlu, adrannau i gydgysylltu'r wybodaeth a roddir i'r cyhoedd neu i roi gwybodaeth i'r cyhoedd? (WAQ29125)

**Sue Essex:** O dan adran 19 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae gan bob awdurdod lleol ddyletswydd i fod â chynllun cyhoeddi, wedi ei gymeradwyo gan y comisiynydd gwybodaeth, yn ymdrin â'r materion hynny y mae'n rhaid i'r awdurdod eu cyhoeddi er mwyn eu lledaenu'n gyhoeddus yn ôl darpariaethau'r Ddeddf. Nid oes rhaid iddynt sefydlu adrannau arbenigol ar y mater hwn na rhoi gwybod i'r Cynulliad pe baent yn penderfynu gwneud hynny.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Gwario Amcanol ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru'r gorwario/tanwario amcanol ar gyfer pob un o ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru? (WAQ27848)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 9 Medi 2003.*

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Bob mis, mae ymddiriedolaethau'r GIG yn cyflwyno amcangyfrif o'u gwariant diwedd blwyddyn disgwyliedig am y flwyddyn ariannol gyfredol. Cyn gynhared â hyn yn y flwyddyn ariannol, mae nifer o ffactorau risg a chyfle ariannol o bwys, a fydd yn dylanwadu ar y gwariant terfynol, yn dal i gael eu rheoli gan yr ymddiriedolaethau. Seilir yr amcangyfrifon hyn ar y sefyllfaoedd ariannol am y cyfnod yn gorffen 31 Gorffennaf 2003, a byddant yn anochel yn newid dros y flwyddyn. Dangosir y rhagolygon a gyflwynwyd yn y tabl isod. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n cwblhau manylion y ddarpariaeth fenthyca y bydd ei hangen ar yr ymddiriedolaethau hynny sy'n darogan diffyg yn 2003-04. Cytunwyd ar y diffyg o £5.179 miliwn ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, ac mae'r gwarged o £1.065 miliwn sy'n cael ei ddarogan gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi ei ddarparu fel bod modd ad-dalu'r benthyciadau a gymerwyd yn y blynyddoedd cynt.

| **Sefyllfa Ariannol Gorffennaf 2003** | **Rhagamcanion Gwarged/(Diffyg) wedi'i etifeddu ac amcangyfrifedig 2003-04 £000oedd** |
|---|---:|
| Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro | (5,179) |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg | 0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a'r Rhondda | 0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | (122) |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent | 0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin | (5,964) |
| Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion | (892) |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen | (3,844) |
| Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg | 0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Abertawe | (500) |
| Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych | 0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru | 0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru | 0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 1,065 |
| **CYFANSWM** | (15,436) |

**Triniaeth Gardioleg (Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent)**

**Michael German:** A all y Gweinidog nodi faint o'r £2 filiwn a glustnodwyd ar gyfer triniaeth gardioleg yn Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent sydd wedi'i wario, ac at ba ddiben, ac a all hefyd nodi erbyn pryd y mae'n disgwyl i'r holl arian gael ei wario? (WAQ28597)

**Michael German:** A all y Gweinidog wneud datganiad ar ei chynlluniau ar gyfer datblygu gwasanaethau Cardioleg o fewn Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent? (WAQ28598)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 10 Hydref 2003.*

**Jane Hutt:** Mater i Gomisiwn Iechyd Cymru a'r byrddau iechyd lleol, yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent drwy rwydwaith cardioleg de-ddwyrain Cymru, yw'r gwasanaethau cardioleg sy'n cael eu darparu yng Ngwent.

Mae cynigion yn cael eu datblygu ar hyn o bryd i ehangu'r gwasanaethau angiograffeg yn sylweddol ledled Cymru, mewn partneriaeth â'r gronfa cyfleoedd newydd. Mae cyfanswm o £11.098 miliwn yn cael ei ddarparu dros dro, ac o'r cynigion y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cyflwyno i'r gronfa, mae hyd at £5 miliwn o'r holl gyllid yn cael ei geisio ar gyfer offer angiograffeg ar chwe safle ar draws Cymru. Mae Ysbyty Brenhinol Gwent wedi'i gynnwys yn y rhaglen ddatblygu hon, ac mae ganddo ddarpariaeth dros dro o £1.730 miliwn ar gyfer gwasanaethau angiograffeg. Yn ychwanegol at y cyllid hwn, mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi cynnig £530,000 i Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent i helpu i foderneiddio gwasanaethau diagnostig eraill ym maes y galon yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Mae'n debygol y caiff y cyllid cyfalaf ei ryddhau i'r ymddiriedolaeth yn ystod 2004-05. Mae'r cyllid hwn yn amodol ar gymeradwyo'r achos busnes sydd i'w ddarparu gan yr ymddiriedolaeth ac ar gytundeb ffurfiol y gronfa cyfleoedd newydd.

**Uned Arbennig ar Gyfer Cleifion sydd wedi cael Strôc**

**David Melding:** Faint o ysbytai cyffredinol dosbarth yng Nghymru sydd ag uned arbennig ar gyfer cleifion sydd wedi cael strôc, ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynny? (WAQ28802)

**Jane Hutt:** Mae darparu gwasanaethau strôc effeithiol yng Nghymru yn fater pwysig iawn. Cynhaliwyd Archwiliad Strôc Sentinel Cenedlaethol Coleg Brenhinol y Meddygon 2001-02 yng Nghymru rhwng 1 Ebrill 2001 a 30 Mehefin 2001. Yng Nghymru, cymerodd 17 o safleoedd ran, a dywedodd 11 ohonynt fod ganddynt uned strôc o fewn eu hymddiriedolaeth. Bydd y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i bobl hŷn yng Nghymru yn canolbwyntio ar ofal wedi strôc a bydd yn help i leihau unrhyw amrywiadau annerbyniol yn y gwasanaeth ac i wella ei ansawdd. Yr ydym wedi gofyn i'r ymddiriedolaethau a'r byrddau iechyd lleol sefydlu llwybrau gofal integredig, erbyn mis Mawrth 2004, i sicrhau bod mesurau cyson i atal a rheoli strôc ni waeth ym mhle yng Nghymru yr ydych yn byw.

**Mynd i'r Afael â'r Oedi wrth Drosglwyddo Gofal**

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog roi dadansoddiad, fesul ardal bwrdd iechyd lleol, o'r £4 miliwn a gyhoeddwyd ar gyfer mynd i'r afael â'r oedi wrth drosglwyddo gofal yn sgîl cyhoeddi adroddiad Wanless? (WAQ28819)

**Jane Hutt:** Mae bron i £2.7 miliwn eisoes wedi cael ei ddyrannu ar gyfer prosiectau penodol, a chaiff yr £1.3 miliwn sy'n weddill ei ddyrannu'n fuan. Rhoddir manylion llawn y dyraniadau yn y Llyfrgell.

**Ymgynghorwyr y Clefyd Siwgr ac Endocrinoleg**

**Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ymateb i argymhelliad Is-Bwyllgor Cynghori ar Feddygaeth Pwyllgor Meddygol Cymru y bydd angen cynyddu nifer yr ymgynghorwyr sydd ar hyn o bryd ym

meysydd y clefyd siwgr ac endocrinoleg yng Nghymru, sef 32, i gyfanswm o ryw 53 erbyn 2005 er mwyn gweithredu'r fframwaith strategol cenedlaethol ar gyfer y clefyd siwgr yn llawn? (WAQ28975)

**Jane Hutt:** Mae'r byrddau iechyd lleol, mewn partneriaeth â grwpiau cynghori lleol y gwasanaeth y clefyd siwgr a grwpiau cyfeirio'r cleifion, yn y broses o ddatblygu eu cynlluniau gweithredu yn barod ar gyfer y strategaeth i roi'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer clefyd siwgr ar waith. Rhoddir sylw i faterion cynllunio'r gweithlu fel rhan o'r broses hon. Yr ydym yn ymwybodol fod prinder ymgynghorwyr ym maes y clefyd siwgr ac endocrinoleg, a bydd darlun mwy cywir o'n hanghenion ar gael pan fydd cynlluniau'r gweithlu wedi dod i law ac wedi cael eu dadansoddi.

### Niferoedd Staff

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog roi gwybodaeth am (i) nifer yr aelodau staff amser llawn a rhan amser yn ei hadran yn 1999 a (ii) nifer yr aelodau staff amser llawn a rhan amser yn ei hadran ar hyn o bryd? (WAQ29020)

**Jane Hutt:** Cyfanswm y gweision sifil cyfwerth ag amser llawn a gâi eu cyflogi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn grwpiau a oedd yn ymwneud â'r swyddogaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol pan sefydlwyd ef ym mis Mai 1999 oedd 359. Yr oedd y cyfanswm ar 10 Hydref yn 740, ac mae a wnelo 438 o'r swyddi parhaol â swyddogaethau a drosglwyddwyd i'r grwpiau hyn dros y cyfnod rhwng 1999 a 2003.

### Gwelyau mewn Cartrefi Gofal

**Jonathan Morgan:** Faint o welyau sydd yng nghartrefi gofal Cymru o'i gymharu â 1999? (WAQ29021)

**Jane Hutt:** Cyfanswm y lleoedd cartref gofal mewn cartrefi preswyl a nyrsio ar 31 Mawrth 1999, yn ôl adroddiadau'r awdurdodau lleol ac iechyd, oedd 29,041. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys lleoedd mewn cartrefi sydd â llai na phedwar gwely. Efallai fod rhai cartrefi sydd â chofrestriad deuol wedi cael eu cyfrif yn y categori preswyl a'r categori nyrsio.

Ar 10 Hydref 2003, yr oedd gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru 27,972 o leoedd wedi'u cofrestru mewn cartrefi gofal i oedolion yng Nghymru. Bydd y ffigur hwn yn cynnwys lleoedd mewn cartrefi sydd â llai na phedwar gwely.

### Cartrefi Gofal

**Jonathan Morgan:** Faint o gartrefi gofal sydd yng Nghymru o'i gymharu â 1999? (WAQ29022)

**Jane Hutt:** Cyfanswm y cartrefi preswyl a nyrsio ar 31 Mawrth 1999, yn ôl datganiadau'r awdurdodau lleol ac iechyd, oedd 1,355. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys cartrefi sydd â llai na phedwar gwely. Efallai fod rhai cartrefi sydd â chofrestriad deuol wedi cael eu cyfrif yn y categori preswyl a'r categori nyrsio.

Ar 10 Hydref 2003, yr oedd gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru 1,451 o gartrefi gofal i oedolion wedi'u cofrestru. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys cartrefi sydd â llai na phedwar gwely.

### Imiwneiddio Plant

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cwymp yn nifer y plant nad ydynt yn cwblhau cwrs imiwneiddio sylfaenol? (WAQ29036)

**Jane Hutt:** Mae'r cwrs imiwneiddio sylfaenol yn rhoi'r amddiffyniad cynharaf posibl rhag difftheria, tetanws, y pâs, ffliw haemoffilws math B, llid yr ymennydd C a pholio, gyda thri dos yn cael eu rhoi i blant yn ddau, tri a phedwar mis oed. Mae Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru yn

goruchwylio'r lefelau imiwneiddio a dywed bod y niferoedd sy'n manteisio ar y ddarpariaeth ledled Cymru yn dal yn sefydlog, sef rhwng 91 a 95 y cant, fel y dengys y tabl isod:

| | **Difftheria** % | **Tetanws** % | **Y Pâs** % | **Ffliw HB** % | **Llid yr Ymennydd** % | **Polio** % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ebrill i Fehefin 2003 | 93.3 | 93.0 | 92.1 | 93.1 | 93.0 | 93.3 |
| Ionawr i Fawrth 2003 | 93.6 | 93.0 | 92.0 | 93.4 | 93.3 | 93.7 |
| Hydref i Ragfyr 2002 | 93.6 | 93.5 | 92.4 | 93.3 | 93.4 | 93.6 |
| Gorffennaf i Fedi 2002 | 92.9 | 92.9 | 91.7 | 92.5 | 92.5 | 92.9 |
| Ebrill i Fehefin 2002 | 93.5 | 93.6 | 92.6 | 93.1 | 93.7 | 93.6 |
| Ionawr i Fawrth 2002 | 93.8 | 93.9 | 93.0 | 93.6 | 93.0 | 93.8 |

Ni allwn fod yn hunanfodlon ynglŷn â'r niferoedd sy'n manteisio ar yr imiwneiddio, a bydd ein hymdrechion yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd dda am imiwneiddio plant ar gael yn hawdd i'r gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gyfrifol am yr imiwneiddio hwnnw.

**Ysbyty Brenhinol Caerdydd**

**Jenny Randerson:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â pherchnogion y brydles ar gyfer safle presennol Ysbyty Brenhinol Caerdydd? (WAQ29037)

**Jane Hutt:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais ar 25 Gorffennaf i WAQ27570, WAQ27571 a WAQ27573.

**Pobl Anabl**

**Lorraine Barrett:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i helpu pobl anabl i aros yn eu cartrefi? (WAQ29038)

**Jane Hutt:** Yr awdurdodau lleol a'r gwasanaethau iechyd lleol sy'n bennaf gyfrifol am ddiwallu anghenion pobl fel y'u haseswyd, er mwyn cynnal eu hannibyniaeth. Yr ydym yn cyflwyno mesurau i hwyluso hyn, gan gynnwys y broses asesu unedig newydd yng nghyswllt rheoli gofal, i sicrhau bod y risg bosibl i annibyniaeth person anabl yn cael ei hasesu a'i rheoli'n gynhwysfawr, a chanllawiau newydd mynediad teg at wasanaeth gofal, a fydd yn help i sicrhau bod y meini prawf cymhwyso yn deg a chyson a bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar atal ac ar ailalluogi. Yn unol â'r addewid yn ein maniffesto, yr ydym yn gweithio tuag at ddarparu gofal cartref rhad ac am ddim i bobl anabl.

**Gwasanaethau Meddygon Teulu y tu Allan i Oriau Gwaith**

**David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau gwaith? (WAQ29039)

**Jane Hutt:** Ar hyn o bryd, cyfrifoldeb y meddygon teulu yw trefnu gwasanaeth y tu allan i oriau gwaith ar gyfer eu cleifion, ac maent o dan rwymedigaeth i sicrhau bod y cleifion yn gallu cyrchu at, ac yn cael, gwasanaeth meddygol digonol. Gall meddygon teulu ddewis cyflawni'r rhwymedigaeth hon drwy drefniadau gyda darparwyr amgen, megis gwasanaethau dirprwyo masnachol neu drefniant cydweithredol rhwng meddygon teulu â'i gilydd.

O dan y contract newydd i wasanaethau meddygol cyffredinol, o 31 Rhagfyr 2004, bydd y rhwymedigaeth hon yn trosglwyddo i'r byrddau iechyd lleol, a fydd yn dod yn gyfrifol am gomisiynu a, lle bo raid, am ddarparu'r gwasanaeth y tu allan i oriau gwaith. O dan y trefniadau newydd, diffinnir y cyfnod y tu allan i oriau gwaith fel y cyfnod rhwng 6.30 p.m. ac 8 a.m. yn ystod yr wythnos, a phenwythnosau, gwyliau banc a gwyliau cyhoeddus yn eu cyfanrwydd.

**Amserau Ymateb y Gwasanaeth Ambiwlans**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar amserau ymateb y gwasanaeth ambiwlans yn y Canolbarth? (WAQ29040)

**Jane Hutt:** Mae'r ystadegau diweddaraf sydd wedi'u cyhoeddi (ar gyfer y chwarter yn gorffen 30 Mehefin 2003) ar gyfer perfformiad y gwasanaeth ambiwlans brys yn dangos fod 47.4 y cant o ymatebion cyntaf i alwadau categori A (peryglu bywyd ar unwaith) wedi cyrraedd o fewn wyth munud ym Mhowys a 41.4 y cant yng Ngheredigion. Mae hyn yn welliant yn y perfformiad o'i gymharu â'r chwarter yn gorffen 30 Mehefin 2002 (46.9 y cant a 38.8 y cant yn y drefn honno).

Dengys yr ystadegau chwarterol hefyd fod 86 y cant o'r ymatebion i bob galwad frys ym Mhowys, ac 84 y cant yng Ngheredigion, yn cyrraedd o fewn yr amserau targed. O ran siwrneiau y mae eu hangen ar fyrder, mae 76 y cant o'r siwrneiau ym Mhowys, ac 89 y cant yng Ngheredigion, yn cyrraedd ddim mwy na 15 munud yn hwyrach na'r amser cyrraedd y gofynnwyd amdano.

Cynyddodd nifer y galwadau brys a dderbyniwyd ar draws Cymru 33 y cant yn 2002-03 o'i gymharu â 1999-2000. Dengys y ffigurau am nifer y galwadau brys a dderbyniwyd ym Mhowys a Cheredigion ym mis Mehefin 2003 gynnydd o oddeutu 40 y cant, o'u cymharu â ffigurau mis Mehefin 2000. Mae gwella'r perfformiad yn wyneb cynnydd o'r fath yn y galw yn her wirioneddol i'r gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru.

Mae'r buddsoddiad ychwanegol o £2.5 miliwn, a ddarparwyd i'r gwasanaeth ambiwlans brys gan Lywodraeth Cynulliad Cymru y flwyddyn ariannol hon, wedi cael ei dargedu at yr ardaloedd sy'n perfformio waethaf. Mae hefyd yn helpu i gyrraedd y targed y rhoddir blaenoriaeth iddo, sydd wedi'i nodi yn y fframwaith gwasanaeth ac ariannol, y dylai 60 y cant o'r ymatebion i alwadau categori A (peryglu bywyd ar unwaith) ar draws Cymru gyrraedd o fewn wyth munud erbyn mis Mawrth 2004. Bydd hyn yn garreg filltir tuag at gyrraedd y targed cenedlaethol o 75 y cant.

**Darparu Cymhorthion Clywed Digidol (Gwent)**

**Rosemary Butler:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ddarparu cymhorthion clywed digidol yng Ngwent? (WAQ29041)

**Jane Hutt:** Yn ystod y cyfnod rhwng 16 Gorffennaf a 21 Medi 2003, cafodd 1,264 o gymhorthion clywed digidol eu gosod i gleifion yng Ngwent. O'r rhain, gosodwyd 393 i ddefnyddwyr newydd ac 871 i gleifion a oedd eisoes yn ddefnyddwyr analog.

**Diddymu Taliadau Presgripsiwn**

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fanteision diddymu taliadau presgripsiwn i bobl Cymru? (WAQ29042)

**Jane Hutt:** Mae'r rhestr amodau eithrio, fel y mae ar hyn o bryd, yn anghyson ac anghyflawn, ac mae'r ffordd y caiff y rheolau eu cymhwyso yr un mor annheg. Mae tystiolaeth wedi dangos bod taliadau presgripsiwn yn atal pobl rhag gofyn am bresgripsiynau ar y gwasanaeth iechyd gwladol a mynd â'u presgripsiwn i gael ei weinyddu, naill ai'n rhannol neu yn ei gyfanrwydd. Os nad yw cleifion yn gallu fforddio'r meddyginiaethau y mae eu hangen arnynt i drin eu cyflwr, gallai'r costau hirdymor i'r GIG fod yn llawer mwy yn nhermau triniaeth ysbyty y gellid bod wedi ei hosgoi.

**Darparu Cymhorthion Clywed Digidol (Cymru)**

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddarparu cymhorthion clywed digidol yng Nghymru? (WAQ29043)

**Jane Hutt:** Yn ystod y cyfnod rhwng 16 Gorffennaf a 21 Medi 2003, cafodd 4,950 o gymhorthion clywed digidol eu gosod i gleifion yng Nghymru. O'r rhain, gosodwyd 2,176 i ddefnyddwyr newydd a 2,774 i gleifion a oedd eisoes yn ddefnyddwyr analog.

Mae cyfanswm o £2.414 miliwn wedi cael ei ddyrannu i'r byrddau iechyd lleol ar gyfer 2003-04 i brynu cymhorthion clywed digidol ac i recriwtio awdiolegwyr yn yr ymddiriedolaethau er mwyn iddynt ymdopi â'r cynnydd yn y galw am wasanaethau clywedeg. Cydnabyddir bod prinder awdiolegwyr wedi'u hyfforddi drwy wlad a bu'n anodd recriwtio felly. I wneud iawn am hyn, mae'r Cynulliad yn darparu cyllid ar gyfer hyd at 13 o raddedigion i ddilyn rhaglen gyflym o hyfforddiant clywedeg. Mae'r myfyrwyr hyn yn cael eu recriwtio gan yr ymddiriedolaethau a byddant yn ymgymhwyso yn 2004 a 2005, yn hytrach na'r cyfnod hyfforddi pedair blynedd sy'n bodoli ar hyn o bryd.

**Trin Llau Pen**

**Gwenda Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyngor diweddar a roddwyd gan Wasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru ynghylch trin llau pen? (WAQ29044)

**Jane Hutt:** Comisiynodd y Cynulliad Wasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, mewn cydweithrediad ag Ysgol Feddygaeth Drofannol Lerpwl, i ymgymryd â phrosiect ymchwil o dan y teitl, 'Insecticide Resistance in Head Lice: A Survey of Welsh Schools', a fydd yn ystyried y meysydd canlynol:

- canfod pa mor gyffredin yw llau pen mewn gwirionedd;
- mesur lefelau gwrthiant llau pen i bryfleiddiad, os oes gwrthiant o'r fath;
- canfod y mecanweithiau biolegol sydd wrth wraidd gwrthiant i bryfleiddiad mewn llau pen; a
- chymharu nodweddion a threfniadau ysgolion sydd â lefelau gwahanol o wrthiant i bryfleiddiad, er mwyn canfod pa ffactorau sydd o bwys wrth i wrthiant i bryfleiddiad ymddangos.

Mae'r adroddiad i fod i gael ei gyhoeddi yn y dyfodol agos, er ei fod wedi cael sylw yn y wasg cyn iddo gael ei gyhoeddi. Mae trafodaethau eisoes ar y gweill lle byddir yn ystyried yn ofalus a oes angen rhoi unrhyw newidiadau polisi ar waith. Unwaith y bydd y trafodaethau hynny wedi'u cwblhau, caiff y wybodaeth ei lledaenu yn eang.

**Ysbyty Newydd Dinbych-y-pysgod**

**Helen Mary Jones:** Pa ardaloedd y bydd ysbyty newydd Dinbych-y-pysgod yn eu gwasanaethu? (WAQ29045)

**Jane Hutt:** Mae'r cynigion i adnewyddu'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd yn Ysbyty'r Bwthyn, Dinbych-y-pysgod, yn rhagweld y byddir yn gwasanaethu ardal de-ddwyrain sir Benfro, yn cwmpasu cyffiniau Dinbych-y-pysgod, Saundersfoot ac Arberth. Cafodd yr achos busnes llawn ei gwblhau'n ddiweddar a'i anfon at Lywodraeth Cynulliad Cymru. Caiff ei ystyried gan fwrdd buddsoddi cyfalaf y Cynulliad, o dan gadeiryddiaeth Ann Lloyd, cyfarwyddwr y GIG yng Nghymru, a bydd hi'n gwneud argymhelliad i mi.

**Oncoleg Glinigol (Ymddiriedolaeth GIG Abertawe)**

**Peter Black:** Pa drafodaethau a gafwyd rhwng y Gweinidog ac Ymddiriedolaeth GIG Abertawe ynghylch darparu gwasanaeth oncoleg glinigol yn yr ardal? (WAQ29046)

**Jane Hutt:** Mater i Gomisiwn Iechyd Cymru a'r byrddau iechyd lleol i'w ystyried yn eu cynlluniau comisiynu, gan weithio mewn partneriaeth â rhwydweithiau'r gwasanaeth canser a'u hymddiriedolaethau lleol, yw'r ddarpariaeth gwasanaeth oncoleg.

**Safle Ysbyty Newydd Dinbych-y-Pysgod**

**Helen Mary Jones:** Oddi wrth bwy y prynwyd safle ysbyty newydd Dinbych-y-pysgod? (WAQ29047)

**Helen Mary Jones:** Faint o arian y mae safle ysbyty newydd Dinbych-y-pysgod wedi'i gostio i'r Cynulliad? (WAQ29048)

**Jane Hutt:** Nid yw'r broses o brynu'r safle wedi ei gwblhau eto. Mae'r safle yn cynnwys dau ddarn o dir, y prif ddarn yn eiddo i Secondsite Property Holdings Cyf a darn llai cyffiniol yn eiddo i Gyngor Sir Penfro. Pan fydd pryniant/pryniannau'r safle wedi ei gwblhau/eu cwblhau, bydd y gost i Lywodraeth Cynulliad Cymru fel a ganlyn:

| | £ |
|---|---:|
| Y prif safle | 550,000.00 |
| TAW ar y prif safle | 96,250.00 |
| Safle'r modurdai | 120,000.00 |
| **Cyfanswm** | **766,250.00** |

Nid yw'r cyfanswm uchod yn cynnwys costau mewnol yr ymddiriedolaeth na'r ffioedd proffesiynol allanol cysylltiol.

**Cyllidebau ar gyfer Adeiladau Newydd i Feddygon Teulu**

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan ai'r Cynulliad neu'r byrddau iechyd lleol fydd yn gyfrifol am y cyllidebau ar gyfer adeiladau newydd i feddygon teulu? (WAQ29056)

**Jane Hutt:** Mae bwrdd prosiect wedi cael ei sefydlu i dywys proses weithredu contract y gwasanaethau meddygol cyffredinol yn ei blaen. Mae'r is-grŵp eiddo, un o'r naw is-grŵp a sefydlwyd gan y bwrdd prosiect, yn ystyried trefniadau manwl o ran sut y dylid ymdrin â'r cyllidebau eiddo.

**Cymhareb Meddyg Teulu/Claf Ddelfrydol**

**Leighton Andrews:** Ym marn y Gweinidog, beth yw'r gymhareb meddyg teulu/claf ddelfrydol? (WAQ29058)

**Jane Hutt:** Nid wyf yn credu bod cymhareb meddyg teulu/claf ddelfrydol. Bydd hyn yn amrywio yn ôl amgylchiadau. Er enghraifft, bydd gan feddygon teulu mewn ardaloedd gwledig restrau llai fel arfer na meddygon teulu trefol. Bydd y Pwyllgor Swyddi Gwag Meddygol, sy'n penderfynu ynghylch swyddi gwag yng Nghymru, yn cymeradwyo meddyg ychwanegol fel arfer os bydd maint y rhestr wedi hynny yn weddol agos at y cyfartaledd fesul meddyg cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru. Ar 30 Medi 2002, maint rhestr ar gyfartaledd fesul meddyg cyfwerth ag amser llawn oedd 1,842.

## Cyfarfodydd gyda Chadeiryddion Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau

**Jonathan Morgan:** Ers mis Ebrill 2002, sawl gwaith y mae'r Gweinidog wedi cyfarfod â (a) chadeiryddion y byrddau iechyd lleol, yn unigol ac fel grŵp a (b) chadeiryddion yr ymddiriedolaethau, yn unigol ac fel grŵp? (WAQ29059)

**Jane Hutt:** Yr wyf yn ystyried trafodaethau rheolaidd gyda'r cadeiryddion yn rhan hanfodol o'm cyswllt â'r gwasanaeth. Cyn ad-drefnu'r GIG yng Nghymru ar 1 Ebrill 2003, yr oeddwn yn cwrdd â chadeiryddion yr awdurdodau iechyd (fel yr oeddynt ar y pryd) ac ymddiriedolaethau'r GIG yn chwarterol.

Bellach yr wyf yn bwriadu trefnu fy nghyfarfodydd rheolaidd fel a ganlyn:

- Byddaf yn cynnal cyfarfod ar y cyd ddwywaith y flwyddyn gyda chadeiryddion y byrddau iechyd lleol a chadeiryddion yr ymddiriedolaethau. Byddwn yn dymuno trefnu'r cyfarfodydd hyn fel eu bod yn cyd-daro, cyn belled ag sy'n bosibl, â chynadleddau chwe misol y prif weithredwyr, o dan arweiniad cyfarwyddwr GIG Cymru.
- Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd ar y cyd ddwywaith y flwyddyn gydag arweinwyr yr awdurdodau lleol a chadeiryddion y byrddau iechyd lleol.
- Bydd pob cyfarwyddwr rhanbarthol yn hwyluso cyfarfodydd cadeiryddion o fewn eu hardal eu hunain, ac yr wyf am fynd i'r cyfarfodydd hyn o bryd i'w gilydd i ystyried materion lleol fel sy'n briodol.
- Er mwyn cynorthwyo cadeiryddion y byrddau iechyd lleol yn eu rôl newydd, cynhaliais fy nghyfarfod swyddogol cyntaf gyda hwy i gyd gyda'i gilydd ar 4 Mehefin 2003 ac ail gyfarfod ar 18 Medi. Bydd y trefniadau hyn yn cael eu disodli bellach gan y trefniadau uchod.

Ceir achlysuron o bryd i'w gilydd pan fyddaf yn cyfarfod â chadeiryddion yn unigol, pan fydd hyn yn briodol.

## Gwasanaethau Cardiaidd yn Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent

**Michael German:** A all y Gweinidog esbonio pam y torrwyd y £2 filiwn a gyhoeddwyd ar gyfer gwasanaethau cardiaidd yn Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent i £750,000, ac i ble y neilltuwyd y £1.25 miliwn sy'n weddill? (WAQ29060)

**Jane Hutt:** Mater i Gomisiwn Iechyd Cymru a'r byrddau iechyd lleol, yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent drwy rwydwaith cardioleg de-ddwyrain Cymru, yw'r gwasanaethau cardioleg sy'n cael eu darparu yng Ngwent.

Mae cynigion yn cael eu datblygu ar hyn o bryd i ehangu'r gwasanaethau angiograffeg yn sylweddol ledled Cymru, mewn partneriaeth â'r gronfa cyfleoedd newydd. Mae cyfanswm o £11.098 miliwn yn cael ei ddarparu dros dro, ac o'r cynigion y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cyflwyno i'r gronfa, mae hyd at £5 miliwn o'r holl gyllid yn cael ei geisio ar gyfer offer angiograffeg ar chwe safle ar draws Cymru. Mae Ysbyty Brenhinol Gwent wedi'i gynnwys yn y rhaglen ddatblygu hon, ac mae ganddo ddarpariaeth dros dro o £1.730 miliwn ar gyfer gwasanaethau angiograffeg. Yn ychwanegol at y cyllid hwn, mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi cynnig £530,000 i Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd Gwent i helpu i foderneiddio gwasanaethau diagnostig eraill ym maes y galon yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Mae'n debygol y caiff y cyllid cyfalaf ei ryddhau i'r ymddiriedolaeth yn ystod 2004-05. Mae'r cyllid hwn yn amodol ar gymeradwyo'r achos busnes sydd i'w ddarparu gan yr ymddiriedolaeth ac ar gytundeb ffurfiol y gronfa cyfleoedd newydd.

## Rhoi Gwybod am Achosion Esgeulustod Clinigol (Terfynau Amser)

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gofynion cyfreithiol o ran y cyfnod sydd ar gael i unigolyn i roi gwybod am achos o esgeulustod clinigol? (WAQ29074)

**Jane Hutt:** Mae'r cyfnod amser a ganiateir i gyflwyno hawliad yng nghyswllt achos o esgeulustod clinigol wedi'i nodi yn Neddf Cyfyngiadau 1980. Dywed y Ddeddf fod yn rhaid i berson gyflwyno ffurflen hawlio i'r llys i ddiogelu ei hawliad ef/hi o fewn tair blynedd i ddyddiad y driniaeth esgeulus honedig, neu o fewn tair blynedd i'r dyddiad y daeth i wybod am y driniaeth esgeulus honedig.

Fodd bynnag, os bydd person a anafwyd yn marw cyn i'r terfyn amser ddod i ben, yn ôl Deddf Diwygio'r Gyfraith (Darpariaethau Amrywiol) 1934, bydd y terfyn amser er budd ei (h)ystâd yn disgyn dair blynedd ar ôl dyddiad y farwolaeth neu'r dyddiad y daeth y cynrychiolydd personol i wybod am y driniaeth esgeulus honedig, pa un bynnag yw'r diweddaraf.

Mae rheolau arbennig yn ymdrin â phlant â 'phobl o dan anabledd'. Nid yw'r cyfnod amser a ganiateir yn dechrau i blant nes iddynt gyrraedd 18 oed, ac mae ganddynt tan y diwrnod cyn eu hunfed pen-blwydd ar hugain i gyflwyno achos i'r llys i ddiogelu'r hawliad.

Caiff pobl o dan anabledd eu diffinio fel pobl nad ydynt, oherwydd nam meddyliol, yn abl i ddeall achosion cyfreithiol. Ni chyfyngir ar y cyfnod a ganiateir yng nghyswllt pobl o'r fath, a gallant ddwyn hawliad ar unrhyw adeg.

Gall hawlydd wneud cais i'r llys am iddo ddatgymhwyso'r cyfnod amser a ganiateir mewn achos o esgeulustod clinigol. Gall y llys, yn ôl ei ddoethineb, ganiatáu i hawliad fynd yn ei flaen os yw'n credu y byddai'n deg i hynny ddigwydd er gwaethaf y ffaith fod y cyfnod amser a ganiateir wedi dod i ben.

## Ysbyty Newydd Dinbych-y-Pysgod

**David Lloyd:** Sut mae'r Gweinidog wedi ystyried dymuniadau pobl Dinbych-y-pysgod, a fynegwyd mewn 2,500 o lythyrau a chyfarfodydd cyhoeddus, yn ogystal â barn gwleidyddion lleol, wrth wneud ei phenderfyniad ynghylch ysbyty newydd Dinbych-y-pysgod? (WAQ29079) [R]

**Jane Hutt:** Cyfarfûm â dirprwyaeth o bobl leol yn ddiweddar i wrando ar eu pryderon. Mae Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen hefyd wedi ystyried barn y cyhoedd wrth baratoi ei hachos busnes llawn ac mae bwrdd yr ymddiriedolaeth, y bwrdd iechyd lleol a'r cyngor iechyd cymuned hefyd yn cefnogi ei barn. Bellach bydd bwrdd cyfalaf a buddsoddi Llywodraeth y Cynulliad, o dan gadeiryddiaeth cyfarwyddwr GIG Cymru, Ann Lloyd, yn ystyried yr achos busnes, a bydd yn gwneud argymhellion i mi wedyn.

## Cadeiryddion y Byrddau Iechyd Lleol

**Jonathan Morgan:** Pryd oedd y tro diwethaf i'r Gweinidog gwrdd â chadeiryddion y byrddau iechyd lleol fel grŵp? (WAQ29113)

**Jane Hutt:** Cyfarfûm ddiwethaf â chadeiryddion y byrddau iechyd lleol fel grŵp ddydd Iau, 18 Medi 2003.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

### Cronfa Gweithgareddau Cymunedol

**Leighton Andrews:** Pa wobrwyon ariannol y mae'r Gweinidog wedi'u cyflwyno o'r gronfa gweithgareddau cymunedol i gyrff yn etholaeth y Rhondda, ers Awst 2003? (WAQ29086)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Yng nghylch diweddaraf y rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol, ym mis Awst 2003, dyfarnais arian i 14 corff sydd wedi'u lleoli yn Rhondda Cynon Taf ac sy'n gwasanaethu'r ardal. Cymeradwywyd grantiau gwerth £696,752 i gyd dros dair blynedd. Mae saith o'r cyrff yn etholaeth y Rhondda yn benodol. Y grantiau a ddyfarnwyd oedd:

| | |
|---|---:|
| Clwb Bechgyn a Merched Cwm Clydach | £48,525 |
| Canolfan Gymunedol Pont-y-gwaith | £20,000 |
| Cymdeithas Tai y Rhondda | £101,310 |
| The Ark, dau grant gwerth | £58,680 |
| Eglwys Fethodistaidd Tonypandy | £55,860 |
| Neuadd Les Pendyrus | £16,538 |
| Cronfa Gofalwyr Ifanc | £5,804 |
| **Cyfanswm dros dair blynedd** | **£306,717** |